

## **Adolygiad o'r Gofal a Ddarparwyd i gleifion ag anabledd dysgu neu broblem iechyd meddwl yn:**

**Ysbyty Iechyd Meddwl  
Annibynnol Ty Cwm Rhondda**

**Dyddiadau'r ymweliadau: 17 Awst 2012**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Tŷ Bevan  
Parc Busnes Caerffili  
Heol y Fan  
CAERFFILI  
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 029 20 928850  
**Ebost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 029 20 928877  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

# Cynnwys

## Rhif y Dudalen

1.	Cyflwyniad a Chefndir	1
2.	Ein Canfyddiadau	4
3.	Casgliad	14
4.	Gofynion	16
5.	Y Camau Nesaf	18

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth honno ar ran Gweinidogion Cymru a ddynodwyd, trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel yr awdurdod cofrestru ar gyfer Cymru.

1.2 Mae'n rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol<sup>1</sup> fod wedi eu cofrestru ag AGIC cyn y cânt ddarparu gwasanaethau yng Nghymru, ac i gael cofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae mwy o wybodaeth am y Safonau a'r rheoliadau cysylltiedig ar gael yn [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk).

1.3 Ym mis Mai 2011, darlledwyd rhaglen yng nghyfres deledu ymchwiliol y BBC, *'Panorama'*, yn tynnu sylw at achosion o gam-drin unigolion ag anabledd dysgu a oedd yn byw mewn ysbyty annibynnol ym Mryste. Yn naturiol, arweiniodd y rhaglen at gryn bryder ymhlith y cyhoedd. O ganlyniad, penderfynodd AGIC gynnal ein rhaglen flynyddol o adolygiadau yn gynharach o ran ysbytai annibynnol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer anawsterau dysgu ac iechyd meddwl.

1.4 Pwyslais yr adolygiadau oedd sicrhau bod unigolion a oedd yn defnyddio gwasanaethau o'r fath yn:

- Ddiogel.
- Derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol.
- Derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol.
- Cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth.
- Cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd.
- Cael gwneud dewisiadau, ac yn cael eu hannog i wneud hynny.

---

<sup>1</sup> Gofal iechyd annibynnol – gwasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu gan y gwasanaeth iechyd.

- Cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu potensial llawn.
- Cael defnyddio gwasanaeth eiriolwyr annibynnol a chael eu cefnogi i fynegi pryderon a chwynion.
- Cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â ffrindiau ac aelodau o'r teulu pan eu bod yn dymuno gwneud hynny.

1.5 Yn rhan o'n proses arolygu, rydym yn cynnal trafodaethau cynhwysfawr, yn rheolaidd, â chleifion ac aelodau staff ac yn arsylwi'n ofalus yr ymadweithio rhwng cleifion a staff. Fe allem hefyd gyfarfod ag aelodau o'r teulu neu eiriolwyr cleifion i ofyn eu barn am y gofal a ddarperir. Yn ogystal ag adolygu pa mor briodol yw'r amgylchedd ffisegol, rydym hefyd yn gwerthuso safon amrywiaeth o ddogfennau gan gynnwys cynlluniau gofal cleifion, polisiau a gweithdrefnau, cynlluniau hyfforddiant a hyfforddiant sefydlu'r staff, a chofnodion cwynion, ataliad a digwyddiadau. Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg i gynnal y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr sydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

## Tŷ Cwm Rhondda

1.6 Cofrestrwyd ysbyty annibynnol Tŷ Cwm Rhondda gydag AGIC am y tro cyntaf yn 2007 ac ar adeg ein hymweliad roedd wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth diogelwch isel<sup>2</sup> i ddarparu triniaeth a gofal nyrsio i 20 o gleifion gyda salwch meddwl a/neu anhwylder personoliaeth<sup>3</sup> a allai hefyd fod wedi eu cadw'n gaeth dan

---

<sup>2</sup> Gwasanaeth diogelwch isel– mae unedau diogelwch isel yn cynnig triniaeth a gofal dwys, cynhwysfawr, ac aml-ddisgyblaethol gan staff cymwysedig i gleifion sy'n arddangos ymddygiad cythryblus yng nghyd-destun anhwylder meddwl difrifol, ac sydd angen darpariaeth ddiogel.

<sup>3</sup> Anhwylder personoliaeth – y diffiniad diagnostig yw patrwm parhaus o brofiad ac ymddygiad mewdol sy'n gwyro'n sylweddol wahanol i ddisgwyliadau diwylliant yr unigolyn, yn hollbresennol ac yn anhyblyg, gan ddechrau ymddangos yn y glasoed neu yn y cyfnod o fod yn oedolyn ifanc, sy'n sefydlog dros amser, ac sy'n arwain at ofid neu amhariaeth.

ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983. Darparwr cofrestredig yr ysbyty yw Pastoral Cymru Limited.

1.7 Cynhaliodd AGIC ymweliad dirybudd â Thŷ Cwm Rhondda ar 17 Awst 2011.

1.8 Nodir y canfyddiadau a ddeilliodd o'r ymweliad hwn yn Adran 2 yr adroddiad hwn. Rydym wedi nodi meysydd o gryfder yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella. Mae adran 4 yr adroddiad hwn yn rhestru gofynion AGIC o ran camau gweithredu.

1.9 Rhoddwyd sylwadau manwl ar lafar i gyfarwyddwr strategol y sefydliad ar ddiwedd ein hymweliad ac roedd yn ofynnol i Dŷ Cwm Rhondda gyflwyno cynllun gweithredu i AGIC a oedd yn rhoi sylw i'r tor-rheoliadau. Anfonwyd cynllun gweithredu yn nodi camau, amserlenni a chanlyniadau i AGIC.

## 2. Ein Canfyddiadau

2.1 Roedd Cylch Gorchwyl yr adolygiad hwn wedi'i strwythuro ar sail cyfres o gwestiynau sylfaenol yr ydym ni'n teimlo y byddai cleifion, eu perthnasau a chomisiynwyr gwasanaethau<sup>4</sup> yn dymuno i ni eu rhoi sylw iddynt. Er mwyn eu gwneud yn eglur ac yn haws cyfeirio atynt, rydym wedi nodi ein canfyddiadau o dan bennawd pob cwestiwn. Ystyrir y cwestiwn cyntaf:

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn ddiogel?'***

yn Adran 3 yr adroddiad hwn, lle'r ydym yn cyflwyno ein casgliadau a'r camau nesaf. Ni ellir ond ateb y cwestiwn hwn ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r cwestiynau isod:

***'A oedd y rhai a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol?'***

2.2 Ar adeg ein hymweliad roedd 17 o gleifion yn derbyn gofal ar y ddwy ward yn Nhŷ Cwm Rhondda. Roedd wyth o gleifion yn derbyn gofal ar ward Clydwch ac roedd naw o gleifion gwrywaidd yn derbyn gofal ar ward Cilliad (mae'r ward hon yn gallu darparu lle i 10 o gleifion).

### Ward Cilliad

2.3 Roedd gan bob ystafell wely ar y ward gyfleusterau en-suite ac roeddynt wedi eu gwneud yn gartrefol gyda phosteri, lluniau ac eitemau personol eraill. Roedd y ward wedi ei haddurno i safon foddhaol.

---

<sup>4</sup> Comisiynwyr gwasanaethau – y sefydliad sy'n prynu gwasanaethau a thriniaeth gan y darparwr cofrestredig.

2.4 Roedd digon o gadeiriau yn y lolfa ar gyfer yr holl gleifion ac roeddynt wedi eu trefnu yn ôl dewis y cleifion ac roedd yr ystafell yn ymddangos yn gartrefol.

2.5 Roedd byrddau gwybodaeth wedi eu gosod mewn gwahanol rannau o'r ddwy ward. Roedd gwybodaeth ar gael ynglŷn ag eiriolaeth, sut i wneud cŵyn, cymorth cyfreithiol, rhifau ffôn defnyddiol, gweithgareddau a rhaglenni gweithgareddau. Er hyn, nodwyd bod y wybodaeth a ddarperir ar y wardiau'n anghyson. Ers ein hymweliad hysbyswyd ni bod aelod o'r staff wedi cael y cyfrifoldeb am sicrhau bod byrddau gwybodaeth y wardiau'n cael eu diweddarau'n rheolaidd.

## **Ward Clydwch**

2.6 Roedd cyfleusterau en-suite yn yr ystafelloedd gwely ar y ward ac roedd y ward yn lân ac wedi ei chynnal a'i chadw'n dda. Defnyddiwyd darluniau i addurno'r ward.

2.7 Ar ddiwrnod yr arolygiad ar 17 Awst 2011 nodwyd bod angen atgyweirio nifer o gadeiriau a bod angen ailosod rhai o'r llenni. Roedd angen atgyweirio rhai o'r byrddau cefn yn yr ystafell ymolchi i atal dŵr rhag llifo y tu ôl iddynt. Ers ein hymweliad mae'r rheolwr cofrestredig wedi cadarnhau bod atgyweiriadau cynnal a chadw wedi eu gwneud a bod rhaglen dreigl o gynnal a chadw wedi ei sefydlu.

2.8 Gweithredir system cloch alw yn yr ysbyty. Mae'r system hon yn rhybuddio'r staff pan fo angen cymorth ar un o'r cleifion h.y. pe byddai claf yn teimlo'n sâl.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol?'***



## Niferoedd Staff

2.9 Roedd yr holl staff, yn ddi-eithriad, yn ddymunol ac yn sôn am eu hymroddiad i annog annibyniaeth a dewis ar gyfer y cleifion, ond roedd prinder o ran niferoedd staff ar achlysur, yn enwedig gyda'r nos ac ar y penwythnosau. Roedd hyn yn effeithio ar gleifion o ran cael cymryd rhan mewn gweithgareddau a chyfleoedd i adael yr ysbyty.

2.10 Roedd tystiolaeth o gynllunio gwyliau blynyddol. Roedd yr ysbyty wedi recriwtio yn ddiweddar hefyd ac wedi cynyddu nifer y staff cronfa. Er hyn, roedd peth o'r wybodaeth/archwiliadau gofynnol h.y. tystlythyrau, datgeliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) yn parhau i fod yn eisiau. Tan fod y wybodaeth hon ar gael, nid oedd y staff newydd yn cael dechrau gweithio yn yr ysbyty.

2.11 Mae'n bwysig bod cysondeb ar gyfer y cleifion o ran y staff sy'n gofalu amdanynt er mwyn adeiladu perthynas therapiwtig lwyddiannus a ffydd. Mae'n bwysig hefyd bod gan yr aelodau staff hyn yr hyfforddiant a'r gallu i weithredu a sefydlu perthynas unigol gyda'r cleifion. Er hyn mae angen i Dŷ Cwm Rhondda adolygu'r lefelau staffio er mwyn sicrhau bod lefelau priodol o staff ar ddyletswydd ar y penwythnosau a dylid sefydlu cynlluniau wrth gefn er mwyn sicrhau y gellir ymdrin â phrinder staff h.y. salwch staff.

2.12 Roedd tystiolaeth bod y rheolwyr ar gael i'r staff a bod ymateb i'w ymholiadau a'u pryderon yn dda ac roedd y rheolwr o'r farn bod presenoldeb ymarferol yn bwysig.

2.13 Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn yr ysbyty am nifer o resymau, gan gynnwys ymagwedd gadarnhaol y rheolwr a'r ffaith fod y rheolwr ar gael iddynt, cyfleoedd i'r staff gyd-weithio sy'n sicrhau bod cleifion yn cael y gofal a thriniaeth gorau posibl er enghraifft y gweithio ar y cyd a oedd yn amlwg rhwng y therapydd galwedigaethol a'r gweithiwr cymdeithasol.

## Hyfforddiant Staff

2.14 Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chwe aelod o'r staff yn ystod ein hymweliad, gan gynnwys staff parhaol a staff cronfa parhaol<sup>5</sup>. Roedd tystiolaeth bod rhaglen dreigl o hyfforddiant yn cael ei chynnal ar gyfer holl aelodau'r staff, a oedd yn cynnwys hyfforddiant Amddiffyn oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA), galluedd meddyliol, caniatâd ayb. Er hyn, nodwyd nad oedd hyfforddiant Amddiffyn Plant sy'n Agored i Niwed (POCA) wedi ei gynnwys yn y rhaglen hon. Mae'r hyfforddiant hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan y staff priodol ddigon o wybodaeth i'w galluogi i weithredu'r gweithdrefnau amddiffyn plant yn effeithiol pan fo angen. Er enghraifft, byddai'n fanteisiol i weithiwr cymdeithasol yr ysbyty, sy'n cyd-gysylltu ymweliadau a chyfnodau o wyliau gartref, ddilyn hyfforddiant o'r fath.

2.15 Roedd sylwadau gan y staff yn awgrymu bod strwythur ffurfiol a rhaglen o oruchwyliaeth a gwerthuso wedi eu sefydlu yn yr ysbyty. Er hyn, nid oedd tystiolaeth o hyn ar gael i ni gan nad oedd cofnodion hyfforddiant y staff ar gael ar adeg yr ymweliad. Gofynnwyd i'r ysbyty anfon copi o'r rhaglen hyfforddi, goruchwyllo a gwerthuso i AGIC a derbyniwyd hwn ar 29 Awst 2011. Roedd y dogfennau'n darparu tystiolaeth o strategaeth staffio gynhwysfawr, prosesau AD a matrices hyfforddiant. Roedd y matrices hyfforddiant yn cynnwys manylion pob aelod o'r staff, y gofynion hyfforddiant a'r dyddiadau y dilynwyd hyfforddiant. Mae'r cofnod hwn yn galluogi aelodau o'r uwch dîm rheoli i gynllunio a chyd-gysylltu hyfforddiant staff a hefyd i fonitro'r dyddiadau y dylid dilyn yr hyfforddiant nesaf a diffyg presenoldeb.

## Polisiau a Gweithdrefnau

2.16 Os yw sefydliad yn mynd i weithredu'n ddiogel ac yn gyson, dylai'r holl staff wybod sut i gael gafael ar y polisiau a'r gweithdrefnau a dylent fod yn gallu dangos gwybodaeth amdanynt. Mae'r enghreifftiau o bolisiau allweddol mae'n rhaid i'r staff fod

---

<sup>5</sup> Staff cronfa – staff a gyflogir gan sefydliad ar sail sesiwn fel bo'r angen, nid o reidrydd ar sail llawn amser neu ran-amser ond gallai rhai fod ar gontract rheolaidd.

yn gyfarwydd â hwy yn cynnwys rheoli meddyginiaeth, Adran 17 – absenoldeb pan fydd unigolyn wedi ei gadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, tywys cleifion yn y gymuned a chwynion. Roedd gan Tŷ Cwm Rhondda ystod o bolisiâu a gweithdrefnau wedi eu sefydlu ac roedd y staff yn gwybod ble i gael gafael ar ffeiliau'r polisiâu a gweithdrefnau. Er hyn, canfuwyd tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â pholisiâu a gweithdrefnau meddyginiaeth yr ysbyty ei hun. Er enghraifft, roedd rhai o'r dalenni meddyginiaeth heb eu llofnodi a phan nad oedd meddyginiaeth wedi ei chymryd, nid oedd unrhyw esboniad ynglŷn â'r rheswm am hynny.

2.17 Roedd tystiolaeth fod trefniadau a phrosesau llywodraethu clinigol<sup>6</sup> yn cael eu gweithredu. Roedd archwiliadau wedi eu datblygu ac roeddynt yn cael eu gweithredu ar adeg ein hymweliad. Roedd y dogfennau hynny yn berthnasol i ofal y cleifion<sup>7</sup> ac ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau. Roedd canlyniadau cychwynnol yr archwiliad yn dangos ble yr oedd angen adolygu a chryfhau dogfennau gofal y cleifion ac ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau a ddarperir.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth eu hunain, eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd, ac yn cael gwneud dewisiadau a'u hannog i wneud hynny?'***

## **Adolygiad o Ddogfennau'r Cynlluniau Gofal**

2.20 Adolygwyd y dogfennau cynllunio gofal a chanfuwyd tystiolaeth a oedd yn dangos bod cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses cynllunio gofal. Roedd dewisiadau ac anghenion y cleifion wedi eu cofnodi ac roedd yn amlwg bod newidiadau i'r cynlluniau'n cael eu trafod gyda'r cleifion. Er nad oedd y trafodaethau gyda'r cleifion

---

<sup>6</sup> Llywodraethu clinigol – System sy'n sicrhau bod sefydliadau yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau'n barhaus ac yn diogelu safonau uchel o ofal, trwy greu amgylchedd lle bydd rhagoriaeth glinigol yn llewyrchu.

<sup>7</sup> Mae dogfennau'r cleifion yn cynnwys cynllun gofal, asesiad risg, gweithgareddau therapiwtig, dalen meddyginiaeth, nodiadau cyfarfod y tîm gofal.

bob amser wedi eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion, gwelwyd tystiolaeth bod trafodaethau o'r fath wedi digwydd trwy ein sgysiau gyda'r cleifion a nodiadau'r cyfarfodydd tîm gofal.

2.21 Roedd nodau cynlluniau gofal y cleifion yn benodol a gwelwyd tystiolaeth o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Er hyn, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod gwybodaeth y cleifion ar gael ar ffurf wahanol h.y. print bras, darluniadol, clywedol. Roedd y perthnasau'n cael eu cynnwys wrth gynllunio gofal ond nid oedd dogfennau ar gael a oedd yn esbonio'r achlysuron pan nad oedd unrhyw berthnasau wedi cymryd rhan. Hefyd, gwelsom nad oedd y nodiadau a'r canlyniadau o gyfarfodydd y tîm clinigol wedi eu cofnodi yn nodiadau cynllun gofal y claf bob amser. Roedd system o fonitro, adolygu ac archwilio wedi ei sefydlu ar gyfer dogfennau'r cleifion. Er hyn, gallai'r uwch dîm rheoli adolygu a chryfhau eu hamserlen archwilio gyfredol er mwyn cynnal archwiliadau'n fwy aml.

2.22 Mae ystod o wahanol fathau o asesiadau risg wedi eu sefydlu ar gyfer cleifion unigol gan gynnwys hunan-niweidio, dianc, symudedd ac ymwybyddiaeth o'u hamgylchedd a nodwyd eu bod wedi eu monitro a'u diweddarau'n rheolaidd o ran gofal a chanlyniadau'r claf. Fodd bynnag, nodwyd hefyd nad oedd rhai o'r dogfennau wedi eu llofnodi ac nid oedd y ffaith bod y penderfyniadau hynny wedi eu trafod gyda'r claf wedi ei gofnodi'n eglur. Rhaid gwneud pob penderfyniad ar sail rhesymeg gadarn ac ymarferol a dylid ei esbonio i'r cleifion, ei nodi'n eglur yn nodiadau'r claf a rhaid iddo gael ei lofnodi gan yr unigolyn sy'n cofnodi.

2.23 Roedd tystiolaeth yn dangos bod Dull Rhaglen Ofal<sup>8</sup> wedi ei sefydlu. Roedd cyfeiriadau yn y dogfennau a archwiliwyd at gleifion yn cael eu gweld gan y cyd-

---

<sup>8</sup> Dull Rhaglen Ofal – System rheoli gofal yw hon sydd wedi ei chydgyssylltu, ac sydd wedi ei seilio ar ddull sy'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn. Mae pedair elfen i'r dull hwn: asesiad systematig, datblygu cynllun gofal, penodi cyd-gysylltydd gofal ac adolygu'r cynllun yn rheolaidd.

gysylltydd gofal cymunedol<sup>9</sup> a theuluoedd yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd Dull Rhaglen Ofal. Roedd yn amlwg bod y gweithiwr cymdeithasol a'r therapydd galwedigaethol yn gwneud gwaith ar y cyd, gan, er enghraifft, gynnal ymweliadau â chartrefi'r cleifion gyda'i gilydd. Mae hwn yn arfer da sy'n hybu ac yn gwella dull cydgysylltiedig o ddarparu gofal i gleifion unigol. Roedd dull systematig ar gyfer cynllunio rhyddhau claf o'r ysbyty wedi ei sefydlu hefyd.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu potensial?'***

## **Gweithgareddau'r Cleifion**

2.24 Trafodwyd amrywiaeth o faterion gyda'r cleifion gan ganolbwyntio ar eu barn ynglŷn â pha un a oeddynt yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi'n briodol. Yn gyffredinol, roedd y cleifion o'r farn eu bod yn cael gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u trefn ddyddiol ond thema a oedd yn codi'n aml oedd bod y cleifion yn dioddef *'diflastod'*. Ychydig iawn o weithgareddau a oedd ar gael ar y penwythnosau a chyda'r nos, yn benodol. Dywedodd nifer o'r cleifion wrthym fod gweithgareddau, cyfnodau o wyliau a hyd yn oed mynediad i'r ardd yn cael eu cwtogi neu eu canslo pe na fyddai digon o staff ar ddyletswydd.

2.25 Roedd rhaglen yn nodi'r ystod o weithgareddau a gynigir i'r cleifion yn cael ei harddangos yn y wardiau. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd rhaglen unigol wedi ei chynnwys yng nghynlluniau gofal pob claf. Mae gweithgareddau'n rhan bwysig o ofal y cleifion a dylai rhaglen o weithgareddau sy'n bodloni anghenion y claf unigol fod yn rhan o'i gynllun gofal ef/hi. Ar adeg ein hymweliadau gwelsom ddau weithgaredd grŵp yn cael eu cynnal ar y wardiau ac roedd nifer o gleifion yn mynd allan am gyfnod i'r gymuned. Roedd sesiynau therapi unigol yn cael eu cynnal ar y wardiau.

---

<sup>9</sup> Cyd-gysylltydd Gofal Cymunedol – Gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol sy'n llunio ac yn goruchwylio cynllun gofal yn rhan o'r Dull Rhaglen Ofal.

2.26 Roedd gweithgareddau cymunedol unigol yn cael eu trefnu ar gyfer cleifion unigol gan gynnwys rhaglenni addysgiadol yn ymwneud â chyfrifiaduron, ystadegau, sgiliau adeiladu, profiad gwaith a gwaith gwirfoddol.

## Maeth

2.27 O ran diet a maeth, canfuom fod darpariaeth ar gyfer dewisiadau'r cleifion. Roedd y cleifion yn cael coginio eu bwyd eu hunain dan oruchwyliaeth ac roedd amrywiaeth a dewis ar gael. Roedd y cleifion yn gadarnhaol am fwyd yr ysbyty o safbwynt amrywiaeth a maint y prydau bwyd.

2.28 Roedd y cleifion yn cael cyfle i siopa, cadw a choginio eu bwyd eu hunain. Roeddynt yn cael gwneud eu diodydd eu hunain fel bo'r angen ac roeddynt yn cael prynu a chadw diodydd o'u dewis.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael defnyddio gwasanaethau eiriolwyr annibynnol ac a oeddynt yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a chwynion?'***

## Defnyddio Gwasanaethau

2.29 Roedd lefel dda o ddealltwriaeth ymhlith y cleifion ynglŷn â sut i godi unrhyw gwynion neu bryderon. Roedd y cleifion yn gwybod sut i ddefnyddio gwasanaethau eirioli hefyd. Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos yn y ddwy ward ynglŷn â gwasanaethau eirioli a sut i nodi cŵyn.

2.30 Roedd y broses a'r weithdrefn gwyno yn eglur ac yn gynhwysfawr ac yn nodi camau gweithredu, canlyniadau a 'gwersi a ddysgwyd'. Yn gyffredinol, canfuwyd bod cwynion wedi eu cofnodi a'u rheoli'n dda a bod y cofnodion yn cynnwys y manylion gofynnol. Er hyn, nid oedd y wybodaeth ynglŷn â'r adborth a roddwyd i'r achwynwyr

bob amser yn gyson, ac weithiau nid oedd manylion o'r fath yn y cofnod cwynion ychwaith.

2.31 Edrychom ar ddigwyddiadau'r flwyddyn ddiwethaf a nodwyd bod y pwyslais ar hysbysu am y digwyddiad a bod bylchau yn y broses ddilynol. Gallai hyn arwain at beidio ag archwilio digwyddiadau'n briodol. Mae angen i staff gwblhau adroddiadau manwl a chynhwysfawr am y canlyniadau a'r *'gwersi a ddysgwyd'* o ddigwyddiadau, i sicrhau bod y broses wedi ei chwblhau'n briodol, a champau dilynol addas wedi eu cymryd, gan gynnwys adborth i gleifion a staff, ac adolygiad o gynlluniau gofal.

2.32 Canfuwyd enghreifftiau pan nad oedd achosion o ataliad wedi eu cofnodi yn y cofnod ataliadau a phan oedd ymyriadau atal a arweiniodd at ddigwyddiadau wedi eu cofnodi yn y cofnod digwyddiadau. Mae angen felly llunio cofnodion ar wahân ar gyfer cofnodi digwyddiadau ac ataliadau gan y bydd hyn yn sicrhau bod cofnod archwilio eglur yn cael ei gadw ar gyfer pob digwyddiad a/neu ataliad unigol. Hefyd, mae angen adolygu'r polisi a'r broses ar gyfer cofnodi ataliadau er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth briodol yn cael ei chofnodi. Bydd hyn yn sicrhau bod cofnod archwilio eglur yn cael ei gadw ar gyfer pob digwyddiad a/neu ataliad unigol. Mae hyn yn bwysig o ran y canlynol:

- Ymchwiliadau posibl.
- Gallai gynorthwyo i nodi ffactorau sy'n sbarduno achosion o'r fath a gallai hyn effeithio ar ofal a/neu driniaeth y claf.
- Dylai'r holl staff fod yn ymwybodol o'r polisiâu a'r gweithdrefnau y mae'r ysbyty wedi cytuno arnynt a dylent eu dilyn. Mae hyn yn lleihau'r perygl i bawb a hefyd yn cynorthwyo mewn trafodaeth am y *'gwersi a ddysgwyd'*.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â ffrindiau ac aelodau o'r teulu pan oeddynt yn dymuno gwneud hynny?'***

## Cefnogaeth i Gleifion Gadw mewn Cysylltiad â Ffrindiau a Theulu

2.33 Roedd ystafell ffôn ar gael ar y ward a byddai staff y ward yn trosglwyddo galwadau i'r ystafell ffôn o swyddfa'r ward hefyd, pe na byddai neb ar gael yn ymyl yr ystafell ffôn, h.y. bod y cleifion yn eu hystafelloedd neu'n gwneud gweithgareddau.

2.34 Roedd nifer o gleifion yn derbyn cyfnod absenoldeb Adran 17<sup>10</sup> a dywedasant wrthym fod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu gallu i gynnal perthynas â'u teuluoedd. Roedd manau ymweld ar gael ac roedd ystafell ymwelwyr ar gael wrth dderbynfa'r ysbyty.

2.35 Gwelwyd tystiolaeth fod cleifion yn teimlo eu bod yn gallu trafod pryderon a phroblemau gydag aelodau o'r staff a bod y staff yn trin y cleifion ag urddas, parch a gofal.

---

<sup>10</sup> Absenoldeb gwyliau Adran 17 – caniatád ffurfiol i glaf a gedwir yn gaeth yn yr ysbyty i fod yn absennol am gyfnod o amser. Mae'r claf yn parhau i fod dan rym y Ddeddf pan fyddant yn absennol a gellir eu galw'n ôl i'r ysbyty ar unrhyw adeg.



### 3. Casgliad

#### *'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn ddiogel?'*

3.1 Nodwyd nifer o dor-rheoliadau yn ystod ymweliad AGIC ar 17 Awst 2011. Un o'r rhain oedd lefelau isel y staff yn yr ysbyty ar y penwythnosau, sy'n gallu effeithio ar ansawdd gofal y cleifion a'u gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chael mynd allan o'r gymuned.

3.2 Roedd y grŵp staff yn ymroddedig a gwelwyd perthynas dda rhwng y cleifion a'r staff trwy gydol yr ymweliad arolygu.

3.3 Ar ddiwedd ein hymweliad, rhoddwyd adborth manwl i gynrychiolydd y darparwr cofrestredig ac amlinellwyd y camau yr oedd angen eu cymryd. Ymatebodd y darparwr cofrestredig i'n llythyr trwy ddarparu cynllun gweithredu i AGIC, ac ers hynny mae wedi anfon diweddariadau i AGIC ynglŷn â'r materion a godwyd.

3.4 Roedd y camau a gymerwyd gan y darparwr cofrestredig yn cynnwys:

- Adolygu nifer y staff ar ddyletswydd gyda'r nos ac ar y penwythnosau. Camau wedi eu cwblhau. Adolygiad parhaus.
- Wrthi'n gwneud mân waith atgyweirio a chyflwyno rhaglen gynnal a chadw. Camau wedi eu cwblhau. Adolygiad parhaus.
- Adolygu systemau archwilio dogfennau'r cleifion. Camau wedi eu cwblhau ar 24 Awst 2011. Adolygiad parhaus.
- Cadarnhau bod matrices hyfforddiant staff a hyfforddiant ysbyty ar waith. Camau wedi eu cwblhau. Derbyniwyd copi o'r matrices hyfforddiant staff a hyfforddiant ysbyty ar 23 Awst 2011.

- Archwiliad o ddealltwriaeth a chydymffurfiad y staff â pholisïau a gweithdrefnau'r ysbyty. **Camau wedi eu cwblhau ar 24 Awst 2011.**  
**Adolygiad parhaus.**

3.5 Er bod nifer o faterion wedi eu nodi yn yr adroddiad, mae'r darparwr cofrestredig wedi gweithredu ac ailddatblygu cynllun gweithredu ac wedi anfon copïau at AGIC. Mae camau eisoes wedi eu cymryd ac mae amserlenni wedi eu pennu ar gyfer cwblhau canlyniadau'r camau eraill.

## 4. Gofynion

4.1 Mae'r gofynion a nodir isod yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a nodwyd un ai o ganlyniad i'r arolygiad neu yn sgil gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan ac ynglŷn â'r darparwr. Yr *'unigolyn cofrestredig'* sydd, yn ôl y ddeddfwriaeth, yn cynnwys darparwr cofrestredig a/neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth, sy'n gyfrifol am gyflawni'r gofynion hyn. Rhaid i'r unigolyn cofrestredig ddarparu cynllun gweithredu sy'n cadarnhau sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r camau gofynnol. Os bydd angen, bydd AGIC yn cymryd camau gorfodi i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau.

Safon Ofynnol Genedlaethol	Rheoliad	Canfyddia dau (Rhif y Paragraff)	Camau Gofynnol	Amserlen
11	16 (1) (a) 20 (1) (a) a (b) 21 (2) (b)	2.11 a 2.14	Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod unigolion sydd â'r cymwysterau, y sgiliau a'r profiad priodol yn gweithio yn y sefydliad bob amser. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan y staff lefelau priodol o hyfforddiant mewn amddiffyn plant.	Mae'n ofynnol cael cadarnhad bod y staff wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant erbyn 30 Rhagfyr 2012.
12	26 (2) (a) a (b)	2.7	Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y safle'n darparu amgylchedd glân sydd mewn cyflwr da.	Ar unwaith ac yn barhaus.
2 a 3	15 (1) (a) a (b)	2.11 a 2.25	Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod ystod o weithgareddau ar gael ar gyfer y cleifion, gan gynnwys ar y penwythnosau.	Ar unwaith ac yn barhaus

23	19 (2) (c) (i) a (ii)	2.30,2.31 a 2.32	Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o sesiynau ôl-drafod ar gyfer y staff yn dilyn cwynion, digwyddiadau ac ataliadau. Hefyd, rhaid cynnal hyfforddiant ynglŷn â dilyn proses yr ysbyty ar gyfer cofnodi ataliadau a digwyddiadau. Dylid adolygu'r polisi a'r broses ar gyfer cofnodi ataliad.	System i'w chyflwyno erbyn 30 Hydref 2011.
8	15 (1) (a) (b) a (c)	2.20,2.21 a 2.25	Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr holl gynlluniau gofal yn gywir a'u bod yn cael eu diweddarau ar ôl cyfarfodydd y tîm gofal. Dylid cynnwys rhaglen unigol o weithgareddau yn rhan o gynlluniau gofal y cleifion.	Ar unwaith ac yn barhaus
8	15 (1) (a) a (b)	2.23	Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr holl deuluoedd yn derbyn anogaeth a chefnogaeth, os yw hynny'n briodol, i gymryd rhan wrth gynllunio gofal y claf. Rhaid cofnodi eu cyfranogiad (neu'r rhesymau dros iddynt beidio â chyfranogi) yn ofalus.	Ar unwaith ac yn barhaus

## 5. Y Camau Nesaf

5.1 Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig anfon cynllun gweithredu at AGIC sy'n mynd i'r afael â'r holl feysydd rheoleiddiol a nodwyd yn yr adroddiad hwn, a hynny o fewn yr amserlenni a nodwyd yn y tabl gofynion uchod.

5.2 Cydnabyddir bod y darparwr cofrestredig eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o'r meysydd yn dilyn ein sesiwn adborth a thrafodaethau dilynol.